

Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol (Dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro, Ysbyty Llandochoau,
Ward Charles Radcliffe,
Canolfan Orthopaedig Caerdydd
a'r Fro (CAVOC)**

1 a 2 Gorffennaf 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Dull	2
3. Cyd-destun	3
4. Crynodeb	4
5. Canfyddiadau	6
Ansawdd Profiad y Claf	6
Darpariaeth yr Hanfodion Gofal	8
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth Staffio	16
Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol	18
6. Y Camau Nesaf	21
Atodiad A	22

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd o Ward Charles Radcliffe, sy'n rhan o Ganolfan Orthopaedig Caerdydd a'r Fro (CAVOC). Mae canolfan CAVOC wedi ei lleoli yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF) ar 1 a 2 Gorffennaf 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Darpariaeth yr Hanfodion Gofal
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth Staffio
- Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol

2. Dull

Mae Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd y cynhelir urddas cleifion mewn ysbyty a'r gofal nyrsio sylfaenol y mae cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau a chyfweliadau ag aelodau staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr yn y Bwrdd Iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwi'r amgylchedd gofal ac arfer gofal yn gyffredinol

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gallai'r arolygiadau hyn nodi problemau ehangach yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gofal hanfodol ac urddas.

3. Cyd-destun

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o sefydliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) mwyaf y DU. Mae'n darparu gwasanaethau iechyd o ddydd i ddydd i boblogaeth o tua 472,400 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sydd angen triniaeth ysbyty a gofal iechyd meddwl brys ac wedi ei drefnu. Mae hefyd yn darparu gofal i bobl yng nghartrefi eu hunain ac mewn clinigau cymunedol.

Y Bwrdd sydd hefyd yn gyfrifol am y ddarpariaeth o wasanaethau gofal sylfaenol y GIG yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr cymunedol, deintyddion ac optometryddion. Hefyd, mae'n gwasanaethu poblogaeth ehangach ar draws de a chanolbarth Cymru ar gyfer arbenigeddau fel gofal dwys paediatrig, gwasanaethau plant arbenigol, gwasanaethau arenol, gwasanaethau'r galon, niwroleg, trawsblaniadau mêr esgyrn a geneteg feddygol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnwys naw ysbyty a dwy ar bymtheg o ganolfannau iechyd, gan gynnwys Ysbyty Athrofaol Llandochau, sy'n ysbyty cyffredinol dosbarth â 480 o welyau. Darperir yr holl brif arbenigeddau.

Canolfan Orthopaedig Caerdydd a'r Fro (CAVOC) yw'r uned ddewisol sy'n darparu gofal orthopaedig arbenigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac mae wedi ei lleoli yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu'r holl wasanaethau trawma sydd wedi eu lleoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

CAVOC yw canolfan Orthopaedig flaenllaw'r GIG yng Nghymru, ac mae'n cyflawni dros 10,000 o lawdriniaethau meddygol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gofalu am boblogaeth leol Caerdydd a Bro Morgannwg ynghyd â gwasanaeth trydyddol arbenigol sylweddol ar gyfer cleifion o bob cwr o Gymru. Y ganolfan yw'r unig ddarparwr o wasanaethau asgwrn y cefn a sgoliosis cymhleth yng Nghymru a'r brif ganolfan ar gyfer llawdriniaeth gywiro gymhleth yn ne Cymru.

4. Crynodeb

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y cleifion o'r farn bod ansawdd eu profiad yn ystod eu hamser ar y ward hon yn rhagorol. Roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn o ran agwedd aelodau staff a'r ffordd y darperir gofal. Roedd cleifion yn teimlo bod eu hurddas a'u preifatrwydd yn cael eu parchu trwy gydol eu harhosiad.

Roedd cleifion yn teimlo bod y wybodaeth a ddarparwyd cyn llawdriniaeth yn rhagorol. Roedd hyn yn cynnwys y ddarpariaeth o ddsbarthiadau paratoi a redir ar y cyd gan aelodau staff nyrsio, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol. Darperir gwybodaeth a chynghor ysgrifenedig cynhwysfawr hefyd.

Roedd yn eglur bod agwedd yr aelodau staff o safon uchel ac roedd aelodau staff bob amser yn ymwybodol o'r angen i sicrhau preifatrwydd ac urddas pob claf, ac roedd ganddynt fesurau ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol yn gyson rhwng aelodau staff, cleifion a pherthnasau ac roedd gan yr aelodau staff berthynas dda â'r holl gleifion.

Roedd y ward yn drefnus ac roedd yr amgylchedd yn hamddenol ag awyrgylch cyfeillgar. Roedd yn ymddangos bod yr holl aelodau staff yn hapus yn eu gwaith ac roedd yn amlwg i'r cleifion. Gwelsom enghreifftiau o sut roedd y gwasanaeth wedi newid o ganlyniad i'r ffaith bod cleifion yn anhapus ag agweddau penodol. Un enghraifft o hyn oedd adborth gan gleifion lle'r oedd cleifion eisiau gwybod pwy oedd yr aelodau staff. O ganlyniad i hyn, mae'r ward wedi archebu hysbyswrdd a fydd yn dangos llun a swydd pob aelod o staff ar y ward.

Er bod yr ardal yn ardal arbenigol brysur, sicrheir cydbwysedd eglur ar y ward rhwng sicrhau bod yr hanfodion gofal yn cael eu bodloni a bod anghenion orthopaedig penodol yn cael eu rheoli hefyd.

Roedd cleifion a pherthnasau yn teimlo y cyfathrebwyd â nhw'n effeithiol mewn ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion a gwelsom safon ragorol o gyfathrebu a gwybodaeth wedi eu personoli, a oedd yn cynnwys cyfranogiad teuluoedd a gofalwyr.

Gwelsom dîm staff amlbroffesiwn a oedd yn amlwg yn drefnus ac yn canolbwyntio ar y cwsmer â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio. Roedd swyddogaeth y Cydgysylltydd Nyrsys yn arbennig o effeithiol. Mae'r swyddogaeth hon yn rhan annatod o'r Ganolfan Orthopaedig gan gymryd rhan yn y gwaith o drefnu derbyniadau a rhyddhau a gweithio'n glinigol gyda chleifion. Roedd gan y cleifion gynlluniau gofal eglur a dealltwriaeth lawn o'u taith drwy'r ganolfan.

Un elfen allweddol o gynnal gwasanaethau effeithlon cyflym oedd defnydd yr aelodau staff o'r hysbyswrdd gwybodaeth staff/diogelwch yn cynnwys gwybodaeth hanfodol sy'n hawdd cyfeirio ati. Swyddogaeth cydgysylltydd y ward yw sicrhau bod yr hysbyswrdd yn gyfredol a bod yr hysbyswrdd yn y

gilfan trolïau yn cael ei baratoï y noswaith cynt yn barod ar gyfer derbyn cleifion y bore canlynol.

Anogwyd cleifion i gynnal cymaint o annibyniaeth ag y gallai eu cyflwr meddygol ei ganiatáu a cheir dull tîm amlddisgyblaeth sy'n canolbwyntio ar adsefydlu cyflym gyda'r nod o ryddhau cleifion o'r ward i'w cartrefi neu amgylchedd cymunedol priodol arall, yn unol â dymuniadau cleifion a'u teuluoedd.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cleifion o'r farn bod ansawdd eu profiad yn ystod eu hamser ar y ward hon yn rhagorol. Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn o ran agwedd aelodau staff a'r ffordd y darperir gofal ac roedd y cleifion yn teimlo bod eu hurddas a'u preifatrwydd yn cael eu parchu yn ystod eu harhosiad.

Cawsom sgwrs â nifer o gleifion a pherthnasau yn ystod ein harolygiad, gan gynnig cyfle iddynt gwblhau holiadur adborth cleifion, perthnasau a gofalwyr mewn ymdrech i ddarganfod safbwyntiau cleifion a pherthnasau ar y gwasanaethau a ddarperir ar ward Charles Radcliffe.

Cwblhawyd dau ddeg saith (27) o holiaduron cleifion, perthnasau a gofalwyr gan gleifion a pherthnasau ac fe'u dychwelwyd i ni yn ystod yr arolygiad. Canfu ein hadolygiad o'r ymatebion i'r holiadur bod dau ddeg pump (25) o gleifion a pherthnasau'n nodi eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod aelodau staff yn gwrtais â nhw.

Pan ofynnwyd iddynt am eu gofal, roedd y cleifion yn gyffredinol fodlon â'r ffordd y darperir gofal ac roeddent yn teimlo y gwrandawyd arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Roedd hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer eu nod o gael eu rhyddhau o'r ward, a gweithio tuag at hynny.

Roedd y cleifion yn teimlo bod yr aelodau staff yn synhwyrol iawn wrth ddarparu gofal personol a allai fod yn bersonol iawn. Fe'n hysbyswyd gan gleifion bod y llenni o amgylch y gwelyau bob amser yn cael eu cau'n llawn dan yr amgylchiadau hyn.

Roedd y cleifion yn llawn canmoliaeth i'r aelodau staff a'u hagwedd, gan ddweud eu bod yn glên iawn a bod ganddynt amser ar eu cyfer. Roedd y cleifion hefyd yn gwerthfawrogi cael eu hannerch trwy eu dewis o enw.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn teimlo'n gyfforddus a'u bod yn gallu gorffwys yn ystod y dydd a'r nos a dywedasant wrthym y gallent gael cymaint o gobenyddion a blancedi ag oeddent yn dymuno, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn teimlo'n gyfforddus.

Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn fodlon â'r bwyd a'r dewis o brydau sydd ar gael. Fodd bynnag, nid oedd y dewis cywir yn cyrraedd bob tro. Roedd rhai cleifion yn teimlo y gallai'r bwyd fod yn well, yn enwedig os oeddent yn archebu o gynllun prydau arbenigol fel cynllun heb gynnyrch llaeth. Roedd rhai cleifion a oedd wedi bod ar y ward am gyfnod o amser yn teimlo bod y dewisiadau ar y fwydlen braidd yn ailadroddus.

Roedd y cleifion yn teimlo bod y wybodaeth a ddarparwyd cyn llawdriniaeth yn "rhagorol", gan gynnwys y ddarpariaeth o ddsbarthiadau paratoadol a redir gan y therapyddion galwedigaethol a gwybodaeth a chyngor ysgrifenedig cynhwysfawr.

Dywedodd nifer fach o gleifion a'u perthnasau wrthym yn ystod yr arolygiad eu bod yn aros am driniaeth ac y byddent yn gwerthfawrogi mwy o wybodaeth o ran pryd yn ystod y diwrnod hwnnw y byddai'r driniaeth yn cael ei chyflawni. Fodd bynnag, ym mhob achos, roedd cleifion a pherthnasau yn canmol profiad cyffredinol y claf a'r gwasanaeth roeddent wedi ei dderbyn.

Amlygodd ein sgysiau gyda chleifion a'u perthnasau bod rhai yn poeni am y lleoedd parcio sydd ar gael yn yr ysbyty. Mae parcio yn yr ysbyty wedi ei gyfyngu i bedair awr, a oedd yn peri pryder arbennig i berthnasau a oedd yn ymweld â chleifion. O ymchwilio ymhellach, cadarnhaodd aelodau staff y ward ei bod yn bosibl ymestyn y cyfnod parcio os oes angen, ond nid oedd y perthnasau i ni siarad â nhw yn ymwybodol o hyn.

Argymhelliad

Cynghorir y Bwrdd Iechyd i ystyried darparu gwybodaeth am y cyfleusterau parcio sydd ar gael yn yr ysbyty gyda'r pecynnau gwybodaeth cyn llawdriniaeth a roddir i gleifion.

Yn ystod yr arolygiad, rhoddir cyfle i gleifion a pherthnasau fynegi eu barn ar y gwasanaeth a ddarparwyd ar ffurf holiadur. Nodir sampl o'r sylwadau a ddarparwyd, y rhoddodd cleifion a pherthnasau ganiatâd i ni eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, isod:

"Mae'r ysbyty hwn, yn hynod, hynod gynorthwyol, yn esbonio popeth iddyn nhw (teulu) ac yn lleddfu pryderon pobl"

"Roeddwn i'n credu eu bod (aelodau staff) yn wych ar ward CAVOC"

"Mae'r aelodau staff yn ofalus iawn ac mae hyn yn galonogol. Mae'r cyfathrebu rhwng aelodau staff yn dda iawn"

"Mae'r gofal yn rhagorol"

"Mae'r aelodau staff yn hynod garedig tuag ataf"

Darpariaeth yr Hanfodion Gofal

Canfuwyd gennym fod yr aelodau staff wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd ac urddas pob claf a bod ganddynt fesurau ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd. Gwelsom nifer o achosion o ryngweithio cadarnhaol iawn rhwng aelodau staff, perthnasau a chleifion yn ystod yr arolygiad, a dangosodd yr aelodau staff berthynas dda gyda'r holl gleifion.

Er bod yr ardal yn ardal arbenigol brysur, sicrhawyd cydbwysedd eglur ar y ward rhwng bodloni'r hanfodion gofal¹ i gleifion yn ogystal â diwallu eu hanghenion orthopaedig penodol.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Mae'n rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion

Roedd cleifion a pherthnasau'n teimlo'n gyffredinol y cyfathrebydd â nhw mewn ffordd a oedd yn ystyriol o'u hanghenion. Gwelsom safon ragorol o gyfathrebu a gwybodaeth wedi eu personoli a oedd yn cynnwys cyfranogiad gan deuluoedd a gofalwyr.

Gwelsom dîm staff amlbroffesiwn a oedd yn amlwg yn drefnus ac yn canolbwyntio ar y claf â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio. Roedd y swyddogaeth Cydgysylltydd Nyrsys yn arbennig o effeithiol. Roedd y swyddogaeth hon yn rhan annatod o'r ganolfan gan gymryd rhan mewn trefnu derbyniadau a rhyddhau a gweithio'n glinigol gyda chleifion. Roedd gan y cleifion gynlluniau gofal eglur a dealltwriaeth lawn o'u taith drwy'r ganolfan.

Roedd cleifion a pherthnasau a siaradodd â ni yn teimlo eu bod wedi derbyn gwybodaeth dda gan ward Charles Radcliffe cyn cael eu derbyn. Gwelsom fod hyn yn arfer da ac adolygwyd enghreifftiau o'r wybodaeth fanwl cyn llawdriniaeth a oedd yn cynnwys gwybodaeth am yr ysbyty, gwybodaeth am y driniaeth a chynllun gofal claf a gwybodaeth adsefydlu dilynol.

Roedd rhieni a pherthnasau'n teimlo bod tîm y ward yn gwrando arnynt. Fe'n hysbyswyd ganddynt eu bod yn cael gwybodaeth briodol am eu cyflwr a'u cynllun gofal cyfredol. Roedd cleifion a theuluoedd yn teimlo eu bod yn rhan o ddewisiadau cynllunio gofal a thriniaeth ac yn teimlo eu bod yn deall y gofal a'r driniaeth a oedd yn cael eu darparu.

¹ Menter Llywodraeth Cymru yw Hanfodion Gofal sydd wedi ei chynnwys yn y cynllun ar gyfer Cymru yn rhan o "Gwella Gwasanaethau Iechyd a Gofal" sy'n darparu canllawiau ar ansawdd y gofal y gall defnyddwyr gwasanaeth ei ddisgwyl gan ddarparwyr iechyd yng Nghymru.

Gwelsom fod yr aelodau staff yn cyfathrebu'n synhwyrol ac yn briodol ac yn cyfathrebu'n dda gyda'r cleifion.

Gwelsom ar y ward bod cyfathrebu traws-ddisgyblaeth rhagorol rhwng yr holl aelodau staff nyrsio, meddygol a'r dderbynfa. Defnyddiwyd cymysgedd sgiliau'r staff nyrsio ar y ward yn effeithiol i ddarparu dull a arweinir gan nyrsys sy'n canolbwyntio ar y claf sy'n amlwg yn cynnwys darparu'r hanfodion gofal a gwasanaethau arbenigol. Fe'n hysbyswyd gan gleifion a pherthnasau iddynt gael eu gwneud yn arbennig o gyfforddus yn y dderbynfa.

Roedd canolbwynt ar gyfathrebu'n amlwg o gychwyn taith y claf yn yr adran. Mae gan aelodau staff y dderbynfa fynediad at amrywiaeth dda o gyfleusterau cyfieithu trwy rifau cyswllt y switsfwrdd, mae dolen sain ar gael ac mae'r aelodau staff yn ymwybodol o unrhyw aelodau staff eraill ar y ward sy'n gallu cyfathrebu mewn ieithoedd eraill, er enghraifft nyrsys sy'n siarad Cymraeg.

Dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion yn yr arolygiad bod cleifion yn cael eu cyfeirio'n brydlon at wasanaethau arbenigol, gan gynnwys tîm rheoli poen a gwasanaethau ffisiotherapi. Roedd cofnodion cleifion hefyd yn cynnwys nodiadau manwl ar adolygiad parhaus gan y gwasanaethau arbenigol.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn gallu cael mynediad at eu cofnodion personol ar gais ac y byddai aelodau'r staff nyrsio yn esbonio unrhyw beth nad oeddent yn ei ddeall. Roedd y cleifion yn teimlo ei bod yn hawdd mynd at aelodau'r staff nyrsio a bod yr aelodau staff yn cymryd amser i wrando ac ymateb i unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd ganddynt.

Roedd un enghraifft o hyn yn ymwneud â nifer o gleifion yr oedd angen eu symud i ran arall o'r ward am nifer o ddiwrnodau. Dynododd sgwrs gyda chlaf bod symud i ran arall o'r ward wedi gwneud iddynt deimlo'n orbryderus i gychwyn. Dywedodd y claf wrthym fod aelodau'r staff wedi sylwi eu bod yn bryderus am y symud arfaethedig a chymerasant amser i esbonio'r rhesymau am eu symud ac am faint o amser y byddai angen eu symud, gan eu cysuro. Fe'n hysbyswyd ganddynt fod hyn wedi gwneud y symudiad yn fwy ystyrlon gan beri llai o bryder iddynt.

Parchu Pobl

Mae'n rhaid diogelu hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis cytbwys bob amser, ac mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir gymryd anghenion, galluedd a dymuniadau'r unigolyn i ystyriaeth.

Gwelsom agwedd gadarnhaol yr aelodau staff a dangosodd yr aelodau staff ymwybyddiaeth o'r angen i ddiogelu preifatrwydd ac urddas pob claf trwy gydol yr arolygiad. Gwelsom ryngweithio parchus cyson rhwng aelodau staff, cleifion a pherthnasau. Roedd y cleifion a gytunodd i sgwrsio â ni yn llawn canmoliaeth i'r aelodau staff ac yn teimlo y siaradwyd â nhw mewn ffordd ddiffwdan a chwrtais.

Dyweddodd y cleifion eu bod yn hapus iawn gyda'r ffordd roedd yr aelodau staff yn dod atynt ac yn sgwrsio â nhw. Roeddent yn llawn canmoliaeth i'r holl aelodau staff ar y ward ac fe'n hysbyswyd ganddynt fod yr aelodau staff yn wybodus a gofalgar iawn.

Roedd y perthnasau i ni siarad â nhw yn ardal aros y dderbynfa yn cael eu hysbysu a'u diweddarau am ofal eu perthynas ac yn teimlo bod yr aelodau staff wedi darparu gwybodaeth dda a diweddariadau rheolaidd tra roeddent yn aros.

Yn ystod triniaeth, roedd yn amlwg ar y ward bod yr aelodau staff yn gwneud eu gorau i gynnal urddas a phreifatrwydd cleifion. Roedd llenni'r erchwyn yn cael eu cau'n llawn a phreifatrwydd cleifion yn cael ei gynnal pan roedd gofal a thriniaeth yn cael eu darparu. Roedd yr aelodau staff yn synhwyrol iawn wrth ddarparu gofal ac roedd ganddynt agwedd barchus iawn, bob amser yn cyflwyno eu hunain i gleifion, yn annerch cleifion gan ddefnyddio eu dewis o enw ac yn gwirio bod cleifion yn fodlon iddynt ddarparu gofal. Roedd yr aelodau staff hefyd yn siarad â'r cleifion mewn ffordd hynod synhwyrol a chwrtais.

Mae'r rhannau o'r ward wedi eu nodi'n eglur ac roedd yr aelodau staff yn gweithio i sicrhau eu bod yn dryloyw ac agored gyda'r cyhoedd, gan arddangos gwybodaeth ward gyfredol ar ddangosyddion gofal ar hysbysfwrdd i hysbysu cleifion am berfformiad y ward. Roedd y wybodaeth a arddangoswyd yn cynnwys pedair croes ddiogelwch² ar gyfer gofal manau pwyso, heintiau a gafwyd yn yr ysbyty ac achosion o gwmpo.

Gwelsom lefel dda o lendid a chynnal a chadw cyffredinol. Roedd yr ystafelloedd ymolchi'n fodern, yn lân, yn gweithio'n dda ac yn amlwg yn rhydd o unrhyw annibendod. Nid oedd unrhyw annibendod amhriodol ar y ward ac roedd yr holl fannau golchi a chypyrddau storio yn hynod drefnus gan alluogi'r aelodau staff i ddod o hyd i unrhyw beth oedd ei angen arnynt yn rhwydd. Nodwyd gennym fod egwyddorion Trawsnewid Gofal wedi cael eu rhoi ar waith a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol ym mhob cwpwrdd storio ac yn y rhan fwyaf o ystafelloedd storio.

Gwelsom gleifion yn cael eu trosglwyddo yn ystod adeg newid shifftiau'r aelodau staff. Cyflawnwyd y trosglwyddiad oddi wrth y cleifion wrth orsaf nyrsio fel na allai cleifion or-glywed sgysiau. Yn dilyn prif drosglwyddiad y ward, cyflawnwyd trosglwyddiadau timau llai mewn ystafelloedd staff, gan ddarparu gwybodaeth fwy penodol am gleifion i dimau ac aelodau staff unigol. Roedd yr aelodau staff yn wybodus am anghenion cleifion unigol ac yn eu trafod mewn ffordd barchus.

Hybu Annibyniaeth

² Croesau cod lliw a welir ar wardiau yw croesau diogelwch, i wneud unrhyw achos o ddioglyddiadau andwyol y gellir eu hosgoi yn hynod amlwg.

Mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn i wneud y mwyaf o'i allu a'i ddymuniad i ofalu am ei hun.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn cael eu hannog i gadw cymaint o annibyniaeth ag y gallai eu cyflwr meddygol ei chaniatáu yn dilyn eu llawdriniaeth. Gwelsom fod dull tîm amlddisgyblaeth sy'n canolbwyntio ar adsefydlu cyflym. Nod hyn yw rhyddhau cleifion o'r ward i'w cartrefi neu amgylchedd cymunedol priodol arall, yn unol â dymuniadau'r cleifion a'u teuluoedd.

Gwelsom fynediad da at wasanaethau ffisiotherapi yn yr adran, gan alluogi anogaeth weithredol o symudiad a symudedd cynnar ar ôl llawdriniaeth. Dywedodd y cleifion eu bod yn gallu ymolchi eu hunain a dilyn trefn gofal personol gyda'r lefel gywir o gefnogaeth gan yr aelodau staff.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion hefyd eu bod yn cael eu hannog gan yr aelodau staff i gynnal eu hannibyniaeth a dechrau symud ar y cyfle cynharaf yn dilyn llawdriniaeth i gynorthwyo eu hadsefydliad tuag at eu rhyddhad arfaethedig o'r ward i'w cartrefi neu amgylchedd priodol arall.

Mae ystafell ddydd fawr ar gael i'r cleifion a'u perthnasau ei defnyddio i wylio'r teledu ac mae nifer o lyfrau darllen ar gael yn yr ystafell. Gwelsom fod y cleifion hefyd yn cael cynnig cyfle i fwyta eu prydau bwyd gyda'u teuluoedd yn yr ystafell ddydd. Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn gallu prynu cylchgronau a phapurau newydd o droli sy'n dod o gwmpas unwaith y diwrnod.

Canfuwyd gennym bod y ward yn defnyddio'r arferion diweddaraf ar gyfer atal Thrombosis Gwythiennau Dwfn gan annog symudiad annibynnol pob claf yn dilyn llawdriniaeth. Pan yn bosibl, roedd cleifion a oedd yn gallu gwneud hynny'n eistedd yn eu cadeiriau neu yn eu gwelyau yn unol â'u dymuniadau.

Roedd rhai Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn wybodus am ofal dementia o'u profiad ar Wardiau blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd yr holl Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd wedi derbyn hyfforddiant penodol mewn gofal dementia.

Cysylltiadau

Mae'n rhaid annog pobl i gynnal eu cysylltiadau â'u teulu a'u ffrindiau a datblygu cysylltiadau gydag eraill yn unol â'u dymuniadau.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio eu gofal, a gwelsom gysylltiadau da rhwng yr aelodau staff a chleifion a rhwng aelodau staff eraill.

Ceir oriau ymweld strwythuredig ar y ward, er i'r aelodau staff ddweud wrthym fod y trefniadau hyn yn hyblyg ac y gallant ddiwallu anghenion cleifion unigol a'u perthnasau.

Mae ystafell ddydd ar gael i gleifion dreulio amser gyda'u teuluoedd. Gall teuluoedd hefyd gymryd rhan yn nhrefn feunyddiol y rhai sydd agosaf atynt. Gwelsom gleifion yn treulio amser yn yr ystafell ddydd gyda'u hymwelwyr yn gwyllo'r teledu ac yn bwyta prydau bwyd.

Gorffwys, Cwsq a Gweithgarwch

Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl fel y gallant orffwys a chysgu.

Datgelodd sgysiau gyda chleifion eu bod yn teimlo eu bod yn gallu gorffwys fel roeddent yn dymuno drwy'r dydd neu'r nos.

Canfuwyd gennym fod stoc briodol o obenyddion a dillad gwely a dywedodd yr aelodau staff wrthym nad oeddent yn wynebu unrhyw brinder cyflenwad. Dywedodd y cleifion eu bod yn gyfforddus ac y byddai aelodau staff yn dod â gobenyddion ychwanegol os oeddent eu heisiau.

Ni nododd y cleifion i ni siarad â nhw unrhyw bryderon neu broblemau ac roeddent yn gallu gorffwys drwy'r dydd neu'r nos. Dywedodd yr aelodau staff y gallai cleifion gael cwsq aflonydd yn y nos os oeddent wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar, ond roedd yr aelodau staff yn arbennig o wylidwrus ac yn rhoi sylw i anghenion cleifion unigol o ran cwsq a gorffwys.

Sicrhau Cysur, Lleddfu Poen

Mae'n rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus a rhydd o boen ag y mae eu hamgylchiadau yn ei ganiatáu.

Dynododd sgysiau gyda chleifion eu bod yn teimlo bod eu poen ar ôl llawdriniaeth yn cael ei reoli'n dda a'u bod mor gyfforddus â phosibl. Dynododd ein harchwiliad o sampl o gofnodion cleifion bod canlyniadau o ymyriadau poen yn cael eu cofnodi'n eglur a'u monitro gan aelodau staff.

Roedd cofnodion nyrsio'n cynnwys nodiadau manwl ar fesur a monitro poen, gan gynnwys y camau a gymerwyd ac adolygiad rheolaidd. Cadarnhaodd sgysiau gyda nifer o aelodau staff eu bod yn teimlo bod gan y ward fynediad da at y tîm rheoli poen. Dynododd cofnodion y cleifion bod ymateb y tîm rheoli poen arbenigol yn dilyn y cyfeiriad cychwynnol yn brydlon.

Dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion bod gan gleifion sgoriau poen cyfredol ym mhob achos, a oedd yn cynnwys tystiolaeth o adolygiad rheolaidd o effeithiolrwydd mesurau lleddfu poen a gymerwyd i sicrhau rheolaeth foddhaol o boen cleifion.

Gwelwyd yr aelodau staff yn rhoi sylw i anghenion unigol y cleifion. Cofnodwyd sgoriau poen lle'n briodol, yn dibynnu ar anghenion y cleifion unigol. Dywedodd

y cleifion i ni siarad â nhw y byddai'r aelodau staff yn sicrhau eu bod yn derbyn mesurau lleddfu poen yn gyflym pan fyddant mewn poen, a bod eu poen wedi lleihau o ganlyniad.

Hylendid Personol, Ymddangosiad a Gofal Traed

Mae'n rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl o ran gofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed.

Canfuwyd gennym bod gan y cleifion ddewis o ran y gofal a'r gefnogaeth maent yn eu derbyn. Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn derbyn cymorth yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau a gwelsom aelodau staff yn cynnig cymorth ac anogaeth briodol i gleifion.

Roedd yn ymddangos yn gyffredinol y gofalwyd am gleifion ar y ward yn dda ac roeddent wedi ymolchi, yn lân ac, yn dibynnu ar ddymuniad y claf ei hun, wedi eillio. Roedd rhai cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain a dywedodd aelodau staff y ward eu bod yn annog hyn.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn gallu cael cawod neu y rhoddwyd powlen iddynt ar yr erchwyn i'w defnyddio i ymolchi, yn dibynnu ar eu dewis, ac roedd cymorth ar gael i olchi eu dwylo a thorri eu hewinedd.

Bwyta ac Yfed

Mae'n rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n bodloni eu gofynion maethgol a phersonol ac mae'n rhaid darparu unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Bodlonir anghenion maethgol y cleifion yn gyffredinol. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhelliad yn gysylltiedig â'r safon hon yn ymwneud â'r ddarpariaeth o gyfleusterau golchi dwylo neu lieiniau gwlyb i gleifion cyn pryd bwyd.

Dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion bod anghenion maethgol y cleifion yn cael eu hasesu. Caiff deiet a faint o hylif mae cleifion yr aseswyd eu bod mewn perygl (oherwydd deiet gwael neu golled pwysau diweddar) yn ei dderbyn trwy ddefnyddio Siartiau Bwyd Cymru Gyfan. Gwelsom Siartiau Bwyd Cymru Gyfan yn cael eu diweddarau gan aelodau staff y ward yn syth ar ôl prydau bwyd.

Canfuwyd gennym fod y cleifion yn gallu yfed ar eu pen eu hunain a bod ganddynt fynediad rhwydd at hylif. Gwelsom fod jygiau dŵr y cleifion yn cael eu hail-lenwi'n rheolaidd drwy'r diwrnod ac ar gais. Fe'n hysbyswyd gan y cleifion bod aelodau staff y ward yn gofalu bod eu jygiau dŵr o fewn cyrraedd bob amser ac yn eu hatgoffa bod diodydd poeth ar gael yn rheolaidd ar gais hefyd. Gwelwyd cleifion sydd angen cymorth i yfed yn cael eu helpu.

Gwelsom yr aelodau staff arlwyo yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd ragweithiol, gan gynnig dewisiadau eraill o brydau lle'n bosibl, er mwyn annog cleifion i fwyta ac yfed.

Gwelwyd aelodau staff y ward yn annog cleifion i fwyta'n rheolaidd ac roedd y rhyngweithio rhwng aelodau staff y ward a'r cleifion yn dda yn ystod prydau bwyd. Gwelwyd cleifion yn derbyn cymorth priodol i fwyta. Fodd bynnag, gwelsom nad yw cleifion yn cael cynnig lloieiniau gwlyb na'r cyfle i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd.

Argymhelliad

Cynghorir y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta eu prydau bwyd yn unol â'u dymuniadau ac yn unol â'r hanfodion gofal.

Iechyd a Hylendid y Geg

Mae'n rhaid darparu cymorth priodol, synhwyrol a phrydlon yn ôl y gofyn, gan gymryd unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd i ystyriaeth.

Canfuwyd gennym y rhoddir sylw priodol i ofal y geg.

Cadarnhaodd sgysiau gyda Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ar y ward eu bod yn wybodus am y gweithdrefnau ar gyfer darparu gofal y geg i gleifion ac roedd mwyafrif y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ar y ward wedi derbyn hyfforddiant priodol i ddarparu gofal y geg i gleifion.

Roedd yn ymddangos bod hylendid a gofal y geg cleifion yn cael eu cynnal ac roedd adborth y cleifion yn dynodi nad oedd unrhyw broblemau gyda hyn. Dywedodd y cleifion eu bod yn gallu glanhau eu dannedd a'u dannedd gosod mor rheolaidd ag y maent yn dymuno.

Mae brwsys dannedd ar gael i gleifion a gwelsom gynwysyddion priodol yn cael eu darparu i gleifion ar y ward i storio eu dannedd gosod.

Mae gan gleifion ar y ward fynediad at wasanaethau deintyddol os oes eu hangen ac fe'n hysbyswyd gan un claf i ni siarad ag ef ei fod yn ymwybodol iddo gael ei gyfeirio at y deintydd a fyddai'n ymweld ag ef ar y ward.

Anghenion Toiled

Mae'n rhaid darparu cymorth priodol, synhwyrol a phrydlon yn ôl y gofyn, gan gymryd unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd i ystyriaeth.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod yn gallu defnyddio'r dull o ddefnyddio'r toiled o'u dewis a dywedasant nad oedd rhaid iddynt aros yn rhy hir am gymorth i fynd i'r toiled a dychwelyd oddi yno.

Dangosodd ein harchwiliad o sampl o gofnodion cleifion bod anghenion ymataliaeth cleifion yn cael eu hasesu wrth eu derbyn. Dywedodd yr aelodau staff bod gan y ward stoc o bediau ymataliaeth amrywiol ond mai prin oedd y galw amdanynt gan fod aelodau staff yn annog cleifion i symud yn gynnar ar ôl llawdriniaeth fel y gallant ddefnyddio comodau neu doiledau.

Canfuwyd gennym fod y toiledau a'r cawodydd ar y ward yn amlwg yn lân. Rhoddir sribedi gwyrdd ar gomodau glân i ddynodi eu bod wedi eu glanhau ac ar gael i'w defnyddio.

Canfuwyd gennym fod y toiledau'n rhydd o annibendod, yn lân a bod yr holl seinyddion cymorth brys o fewn cyrraedd rhwydd i gleifion.

Atal Briwiau Pwyso

Mae'n rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Canfuwyd tystiolaeth gennym fod yr aelodau staff yn defnyddio dull asesu manau pwyso i gynorthwyo i nodi'r cleifion hynny a allai fod mewn perygl o ddatblygu niwed pwyso. Gwelwyd o graffu ar sampl o gleifion bod asesiadau manau pwyso'n gyfredol ac yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd.

Dangosodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion bod cyflwr croen cleifion yn cael ei asesu gan ddefnyddio dull asesu manau pwyso. Cynhelir asesiad risg unigol ar gleifion wrth eu derbyn ac roedd dogfennau manau pwyso'n cynnwys tystiolaeth o werthuso rheolaidd. Canfuwyd gennym bod yr holl asesiadau manau pwyso yn gyfredol ac wedi eu gwerthuso i leihau'r tebygolrwydd o niwed pwyso.

Gelsom fod hysbysfwrdd mewn ardal gymunedol ar y ward a oedd yn cynnwys croesau diogelwch³ yn dynodi achosion o wlserau pwyso ar ward Charles

³ Croesau cod lliw a welir ar wardiau yw croesau diogelwch, i wneud unrhyw achos o ddigwyddiadau andwyol y gellir eu hosgoi yn hynod amlwg.

Radcliffe. Mae'r ward yn defnyddio'r croesau diogelwch fel ffordd o gyfathrebu perfformiad y ward o ran yr achosion o wiserau pwysu i'r cyhoedd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth Staffio

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod tîm y ward yn bodloni'r safonau gofal nyrsio gofynnol a bod yr aelodau staff yn deall y polisiau, y gweithdrefnau a'r canllawiau. Gwelsom fod y ward yn cael ei rhedeg yn dda gan roi sylw dyledus i safonau gofal proffesiynol.

Mae'r egwyddorion arweiniol ar gyfer staffio nyrsys, a gyhoeddir gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru, yn nodi na ddylid neilltuo mwy na saith claf i bob nyrs gofrestredig ar ward lawfeddygol yn ystod y dydd. Roedd staffio'n briodol ar ddiwrnod ein harolygiad a chadarnhaodd yr aelodau staff i ni siarad â nhw eu bod yn teimlo bod y lefel staffio a'r gymysgedd sgiliau'n briodol i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd aelodau uwch y staff nyrsio yn gwbl ymwybodol o'r polisi symud i fyny'r lefelau sydd ar waith ar y ward i wneud cais am aelodau staff ychwanegol pan fydd eu hangen, a chanfuwyd bod y polisi'n effeithiol.

Gwelsom fod amgylchedd y ward yn cynnwys tair adran ar wahân a gwelsom fod digon o aelodau staff ar gael bob amser. Roeddent yn bresennol ym mhob ardal yn barhaus, gan sicrhau darpariaeth barhaus o ofal ac arsylwi i gleifion.

Roedd gan y ganolfan swyddogaeth cydgysylltydd neilltuedig ar bob shift. Roedd y swyddogaeth hon yn rhan o dîm nyrsio'r ward ac yn rhan annatod o drefnu'r ddarpariaeth o ofal. Ar adegau yn ôl y gofyn, byddai'r cydgysylltydd yn darparu gofal uniongyrchol os oedd angen ei sgiliau a'i brofiad i gefnogi agweddau penodol ar ofal uniongyrchol o fewn y tîm. Roedd y cydgysylltydd yn darparu swyddogaeth oruchwylio neilltuedig i'r gwaith o drefnu derbyniadau a rhyddhau a gynlluniwyd a'r gwaith cyffredinol o redeg y ddarpariaeth o ofal yn y ganolfan. Gwelwyd bod y swyddogaeth cydgysylltydd yn ffordd o drefnu, arwain a rheoli'r llif cleifion a'r ddarpariaeth o ofal o ansawdd yn effeithlon.

Esboniodd yr uwch nyrs bod y ganolfan yn gweithio'n unol ag athroniaeth sy'n canolbwyntio holl aelodau'r staff ar amser a gyfeirir gan gyswllt cleifion, a disgwyliwyd i'r aelodau staff ddefnyddio'r desgiau i ddefnyddio'r cyfrifiadur yn unig. Roedd mwyafrif helaeth y gofal cleifion, gan gynnwys dogfennau, yn digwydd yng nghilfannau'r cleifion. Dywedodd yr aelodau staff eu bod yn teimlo y gallent godi pryderon yn rhydd gyda phrif nyrs/nyrs gyfrifol y ward ac roedd diwylliant agored iawn yn amlwg ar y ward, wedi ei gefnogi gan arweinyddiaeth glinigol gref. Gwelsom fod nyrsys uwch yn amlwg trwy gydol yr arolygiad a'u bod yn rhan annatod o'r tîm.

Datgelodd sgysiaiu gydag aelodau staff bod yr aelodau staff nyrsio yn teimlo wedi eu grymuso i symud problemau i fyny i lefel y nyrsys uwch. Roedd yr aelodau staff i ni siarad â nhw yn deall y polisïau, y gweithdrefnau a'r canllawiau clinigol ar waith sydd wedi eu cynllunio i sicrhau darpariaeth lwyddiannus o ofal a thriniaeth. Fe'n hysbyswyd gan yr aelodau staff bod ganddynt fynediad at fodiwlau hyfforddiant amrywiol ar gyfer y rhain trwy ddulliau dysgu ar-lein.

Roedd gan yr aelodau staff i ni siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau ar gyfer cwynion gan ddarparu enghreifftiau o sut maent yn cyfathrebu â pherthnasau sydd â chwestiynau neu bryderon am ofal cleifion. Anogir perthnasau bob amser i godi unrhyw bryderon am aelodau staff, a chaiff yr aelodau staff eu grymuso gan aelodau staff uwch i ddarparu gwybodaeth.

Gwelsom fod cyfathrebiad aelodau staff ar y ward ac wrth drosglwyddo'n rhagorol. Mae'r aelodau staff yn defnyddio hysbysfwrdd sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol am gleifion i gynnig trosolwg o'r gofal a ddarparwyd yn ystod y diwrnod a chyflwr cyfredol y claf. Roedd yr hysbysfwrdd yn cyfeirio at enwau cleifion, ond dim gwybodaeth bersonol arall. Mae'r cydgysylltydd yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ddiweddarau'r hysbysfwrdd hwn.

Canfuwyd gennym fod y ward yn drefnus a bod yr amgylchedd yn hamddenol ag awyrgylch cyfeillgar. Roedd yr holl aelodau staff yn ymddangos yn hapus yn eu gwaith ac roedd hyn yn amlwg i'r cleifion. Amlygodd sgysiaiu gydag aelodau staff enghreifftiau o sut mae'r aelodau staff yn gwneud newidiadau i'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu i gleifion o ganlyniad i'r ward yn gwrando ar adborth a ddarperir gan gleifion am eu profiad tra ar y ward. Un enghraifft o hyn oedd bod adborth gan gleifion wedi dynodi bod cleifion eisiau gwybod pwy oedd y tîm staff. O ganlyniad i hyn, mae'r ward wedi archebu hysbysfwrdd a fydd yn cynnwys llun a swydd pob aelod o staff ar y ward. Bydd yr hysbysfwrdd yn cael ei leoli mewn man amlwg lle gall cleifion, perthnasau ac ymwelwyr ei weld.

Roedd y cleifion i ni siarad â nhw'n llawn canmoliaeth i lefel cyfathrebiad yr aelodau staff. Esboniodd un claf ei fod wedi derbyn diagnosis annisgwyl yn ystod ei amser ar y ward. Dywedodd wrthym fod yr aelodau staff wedi cynnig esboniad llawn o'i gyflwr ac wedi ei alluogi i deimlo ei fod yn cymryd rhan lawn yn eu triniaeth a'u rheolaeth.

Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol

Mae'n rhaid hybu a diogelu iechyd, diogelwch a lles pobl yn ymarferol. Mae'n rhaid nodi risgiau, eu monitro a, lle'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal.

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod aelodau staff y ward yn rhoi sylw i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion. Rydym wedi gwneud un argymhelliad yn y maes hwn yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau'n ddiogel.

Ansawdd a Diogelwch

Nodwyd gennym mai elfen allweddol o gynnal gwasanaeth effeithlon cyflym oedd defnydd o'r hysbysfwrdd gwybodaeth staff/diogelwch sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol y gellir cyfeirio ati'n rhwydd. Swyddogaeth cydgysylltydd y ward oedd sicrhau bod yr hysbysfwrdd yn gyfredol a chaiff yr hysbysfwrdd yn y gilfan trolïau ei baratoi'r noswaith cynt yn barod ar gyfer derbyn cleifion y bore canlynol.

Canfuwyd gennym fod digwyddiadau clinigol yn cael eu hymchwilio'n brydlon gan uwch reolwr nyrsys ac y darperir adroddiadau misol i'r bwrdd diogelwch. Mae'r ward yn sicrhau wedyn bod unrhyw beth a ddysgir o ddigwyddiadau'n cael ei fwydo yn ôl i'r tîm nyrsio i'w atal rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Dynododd sgysiaid gydag aelodau staff eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r polisiau clinigol perthnasol ac roedd ffolder o'r rhain ar gael i gyfeirio ati ar y ward. Hefyd, mae polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gael ar fewnwyd y Bwrdd Iechyd ac mae modiwlau hyfforddiant ar gyfer aelodau staff ar gael trwy e-ddysgu ar y cyfrifiadur.

Amgylchedd

Yn gyffredinol, roedd yr amgylchedd yn lân, yn fodern ac yn lliwgar ac nid oedd unrhyw annibendod amhriodol yno. Roedd cyfleusterau ar gyfer cleifion fel toiledau a chawodydd yn dda. Gwelwyd bod ardal y gilfan trolïau yn amgylchedd anodd i aelodau staff oherwydd y lle cyfyngedig sydd ar gael. Roedd lle cyfyngedig o amgylch dau o'r cilfannau trolïau ar un pen i'r ward. Fodd bynnag, nid oedd adborth gan gleifion yn awgrymu bod hyn yn bryder gan nad oeddent yn y gilfan trolïau am gyfnod hir o amser. Canfuwyd gennym fod yr ystafelloedd storio'n eithriadol o drefnus, sy'n galluogi aelodau staff i ddod o hyd i unrhyw beth sydd ei angen arnynt yn gyflym.

Glendid a Hylendid Dwyllo

Ni chynhaliwyd arolygiad hap-archwilio glendid gennym. Fodd bynnag, casglwyd o'n harsylwadau cyffredinol o arfer glendid bod y ward yn gyson lân trwy gydol yr arolygiad. Canfuwyd bod yr holl fannau golchi, ystafelloedd

meddyginiaeth ac ystafelloedd storio yn drefnus ac y defnyddiwyd egwyddorion Trawsnewid Gofal i nodi cynnwys cypyrddau. Canfuwyd bod pob comôd wedi ei lanhau'n briodol a bod tâp gwyrdd arnynt i ddynodi eu bod wedi cael eu glanhau a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Diogelwch Cleifion

Canfuwyd gennym fod gan bob claf fynediad at glychau galw a oedd yn gweithio ac arsylwyd bod yr aelodau staff yn ymateb yn brydlon i glychau galw'r cleifion. Cadarnhaodd y cleifion i ni siarad â nhw nad oedd rhaid iddynt aros yn hir i aelod o'r staff nyrsio ymateb iddynt ar ôl iddynt ddefnyddio'r clychau galw pan roedd angen cymorth arnynt.

Gwelsom fod yr holl aelodau staff yn drwsiadus ac yn gwisgo eu gwisgoedd yn unol â chod gwisg Cymru gyfan a bod yr aelodau staff a oedd yn bresennol ar y ward yn gwisgo bathodynau enw neu fathau eraill o wybodaeth adnabod swyddogol.

Gwelsom nad oedd un claf yn gwisgo band llawes ac fe'n hysbyswyd gan y claf bod hyn oherwydd ei fod wedi ei dynnu. Hysbyswyd y nyrs a oedd yn gyfrifol am y ward yn ystod yr arolygiad gennym am hyn, a sicrhodd y nyrs gyfrifol y darparwyd band llawes newydd i'r claf ar unwaith.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd yr aelodau staff yn gallu cael mynediad at bolisiau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer storio cyffuriau, eu rhoi ar bresgripsiwn a'u rhoi i gleifion. Cedwir y dogfennau hyn mewn ffolder yn swyddfa'r nyrsys. Ceir fferyllydd neilltuedig ar y ward hefyd.

Canfuwyd gennym trwy gydol yr arolygiad bod drws yr ystafell feddyginiaeth ar glo'n barhaus a bod mynediad at yr ystafell feddyginiaeth yn ddiogel ac wedi ei gyfyngu i bersonél awdurdodedig yn unig. Roedd yn rhwydd dod o hyd i feddyginiaeth yn yr ystafell feddyginiaeth gan fod lluniau ar flaen y cypyrddau yn dangos y feddyginiaeth oedd ynddynt.

Gwelsom yn ystod rownd feddyginiaeth nad oedd y nyrs a oedd yn rhoi meddyginiaeth i gleifion yn edrych ar fandiau llawes y cleifion yn gyson fel dull adnabod. Roedd yn ymddangos bod y nyrs yn ymwybodol o bwy oedd pob claf, ond dylid cadarnhau pwy yw'r cleifion bob amser, ar lafar a thrwy edrych ar y band llawes, er mwyn sicrhau y rheolir meddyginiaethau'n ddiogel.

Canfuwyd gennym mai troli gorchuddion â silffoedd agored oedd y droli a ddefnyddir i ddosbarthu meddyginiaethau ar y ward, gan gynnwys meddyginiaethau lleddfu poen. Roedd y droli'n agos at y nyrs a oedd yn rhoi'r feddyginiaeth bob amser. Fodd bynnag, ceir perygl na ellid diogelu'r droli'n gyflym pe bai sylw'r nyrs yn cael ei dynnu neu pe bai'n cael ei galw i argyfwng ac y gallai unigolion heb awdurdod gymryd cyffuriau'n rhwydd.

Argymhelliad

Cynghorir y Bwrdd lechyd am yr angen i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel yn ystod y rownd feddyginiaeth.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd gyflawni Cynllun Gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â'r canfyddiadau allweddol o'r arolygiad a chyflwyno ei Gynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd lechyd nodi'n eglur pryd a sut y bydd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau nad yw'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau/ unedau eraill y Bwrdd lechyd.

Ar ôl ei gytuno, cyhoeddir Cynllun Gwella'r Bwrdd lechyd ar wefan Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru a chaiff ei werthuso'n rhan o'r broses arolygu Urddas a Hanfodion Gofal barhaus.

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Llandochoau

Ward/ Adran: Ward Charles Radcliffe, Uned CAVOC

Dyddiad arolygu: 30 Mehefin ac 1 Gorffennaf 2014

Canfyddiad ac Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf			
<i>Cynghorir y Bwrdd Iechyd i ystyried darparu gwybodaeth am y cyfleusterau parcio sydd ar gael yn yr ysbyty gyda'r pecynnau gwybodaeth cyn llawdriniaeth a roddir i gleifion.</i>			
Darpariaeth yr Hanfodion Gofal			
<i>Cynghorir y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta eu prydau bwyd yn unol â'u dymuniadau ac yn unol â'r hanfodion gofal.</i>			

Canfyddiad ac Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth Staffio			
Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion yng nghyswllt y safon hon.			
Y Ddarpariaeth o Wasanaeth Diogel ac Effeithiol			
<i>Cynghorir y Bwrdd Iechyd am yr angen i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel yn ystod y rownd feddyginiaeth.</i>			

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (printiwch):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad: